OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2605 (Cy.180)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*20 Medi 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Medi 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau'n arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 30 a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Medi 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i geisiadau am grant a wneir ar 30 Medi 2005 neu wedi hynny i Awdurdodau Tai Lleol yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1996" ("*the 1996 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996(**2**).

Diwygio Rheoliadau 1996

3.—(1) Diwygir Rheoliadau 1996 fel a ganlyn:

(2) Yn lle rheoliad 5 rhodder y canlynol—

"**Definition of relevant person**

5.—(1) Subject to paragraph (2), in respect of any application for a grant a relevant person is any person who—

(a) is the disabled occupant, or one of the disabled occupants, of the dwelling or the flat in the building and is not a child or young person; or

(**1**) 1996 p.53. Trosglwyddir swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 30 a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**2**) O.S. 1996/2890.